WALES&WEST UTILITIES

# Adroddiad Blynyddol i Randdeiliaid

2025



# Ni yw Wales & West Utilities

## Yn Wales & West Utilities, rydym yn angerddol dros sicrhau ein bod yn darparu cyflenwad nwy diogel a dibynadwy i'n cwsmeriaid pryd bynnag y bydd ei angen arnynt. Mae ein timau ymroddedig yn gweithio bob awr i gludo nwy i'r cartrefi a'r busnesau rydym yn eu gwasanaethu ac yn gweithio hefyd i baratoi ein rhwydwaith ar gyfer cludo nwyon gwyrdd y dyfodol, fel biomethan a hydrogen.

Mae ymateb i argyfyngau nwy, cysylltu cartrefi a busnesau newydd i'n rhwydwaith ac uwchraddio hen bibellau nwy metel drwy osod pibellau newydd mwy gwydn hefyd yn rhan o'n busnes craidd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn derbyn cyflenwad nwy diogel a dibynadwy am genedlaethau eto.

Fel rhwydwaith dosbarthu nwy, rydym yn cael ein rheoleiddio gan Ofgem. Mae ein Cynllun Busnes cyfredol ar gyfer cyfnod 2021 i 2026 (a elwir yn GD2 yn y diwydiant) yn rhoi rhagor o fanylion am yr ymrwymiadau a wnaethom i gadw cwsmeriaid yn ddiogel ac yn gynnes bob dydd. Mae ein Cynllun Busnes GD3 newydd yn gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y cyfnod rheoli prisiau nesaf, sef Ebrill 2026 – Mawrth 2031.

| **35,000+** | **2.5m** | **7.5m** | **2,000** |
| --- | --- | --- | --- |
| o gilometrau o bibellau nwy yn cael eu cynnal | o gartrefi a busnesau yn derbyn cyflenwad nwy | o bobl yn cael eu gwasanaethu | o gydweithwyr galluog |

bsi Inclusive Service Energy Provision KITEMARK™
KM 773646
BS EN ISO 22458



# Cynnwys


- Ni yw Wales & West Utilities 2
- Croeso a Chyflwyniad 4
- Ein diben a'n hymagwedd 5
- Ein pedwar ymrwymiad 6
  - Darparu rhwydwaith sy'n amgylcheddol gynaliadwy 11
  - Cynnal rhwydwaith diogel a gwydn 14
  - Diwallu anghenion cwsmeriaid a defnyddwyr y rhwydwaith 17
  - Darparu gwerth am arian 20
- Edrych ymlaen 23
- Ein hadroddiadau eraill 25
- Sylwadau cloi 26




# Croeso a Chyflwyniad

## Dathlu 20 mlynedd o gadw cymunedau wedi'u cysylltu

Mae eleni yn garreg filltir bwysig i ni – ers 20 mlynedd, rydyn ni wedi cadw'r nwy yn llifo yn ddiogel ac yn ddibynadwy ledled Cymru a de-orllewin Lloegr. Er bod llawer o'n rhwydwaith allan o'r golwg, mae manteision ein gwasanaethau yn amlwg bob dydd. Sicrhau bod ciniawau teuluoedd yn dal i gael eu coginio, paneidiau yn cael eu paratoi, diwydiannau yn symud. Mae ein gwaith wedi cefnogi bywyd beunyddiol i filiynau o bobl.

Rydyn ni'n ymfalchïo ein bod yn fusnes sydd wedi'i seilio ar bobl, a'n cymunedau ydy'r rheswm dros wneud yr hyn a wnawn. Mae llawer o'n cydweithwyr yn byw yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, ac mae nifer o deuluoedd yn gweithio yma ers degawdau. I'n cydweithwyr anhygoel a'u hymroddiad y mae'r diolch am bopeth a gyflawnwyd gennym - mae eu hymrwymiad yn parhau i ysgogi perfformiad ac arloesedd o'r radd flaenaf wrth i ni edrych tua'r dyfodol.

**Ymlaen â ni at y bennod nesaf – a diolch i chi, ein rhanddeiliaid, am fod gyda ni ar ein taith.**





# Ein diben a'n hymagwedd

## Diben yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut rydyn ni wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y flwyddyn ddiwethaf, canlyniadau'r ymgysylltu hwnnw, a sut mae'r hyn a ddysgom o ganlyniad wedi dylanwadu ar ein cyfeiriad strategol wrth i ni baratoi ar gyfer GD3. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i wrando, dysgu a gweithredu ar sail safbwyntiau'r rhai sy'n dibynnu ar ein rhwydwaith ac yn cyfrannu ato – o gwsmeriaid a phartneriaid cymunedol i arbenigwyr yn y diwydiant ac eiriolwyr amgylcheddol.

Rhoddir sylw yn yr adroddiad hwn hefyd i'r blaenoriaethau oedd bwysicaf i randdeiliaid a'r canlyniadau diriaethol rydyn ni wedi'u cyflawni gyda'n gilydd. Rhoddir cofnod o'n cynnydd mesuradwy mewn meysydd gwaith sy'n cynnwys gwytnwch y rhwydwaith, cefnogaeth gymunedol, a chyflymu ymrwymiadau amgylcheddol.

**Gwrando** **Dysgu** **Darparu**

# Ein hymrwymiadau

Mae adrannau nesaf ein hadroddiad yn adlewyrchu tri chategori allbynnau Ofgem a amlinellwyd yn ein Cynllun Busnes GD2, er mwyn dangos sut rydyn ni'n bodloni rhwymedigaethau rheoleiddiol ac amlygu ein gwir werth ac effaith. Rydym wedi ychwanegu un ymrwymiad ac adran ychwanegol hefyd – "Darparu gwerth am arian". Mae'r ffocws ychwanegol hwn yn dangos ein hymrwymiad i effeithlonrwydd a sicrhau'r canlyniadau gorau posib i'n rhanddeiliaid.

| | |
|---|---|
| Categorïau allbynnau Ofgem | Darparu rhwydwaith sy'n amgylcheddol gynaliadwy |
| | Cynnal rhwydwaith diogel a gwydn |
| | Diwallu anghenion cwsmeriaid a defnyddwyr y rhwydwaith |
| Ymrwymiad ychwanegol WWU | Darparu gwerth am arian |



# Ein fframwaith blaenoriaethau ymgysylltu

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein hymrwymiadau yn cyd-fynd â'r egwyddorion sy'n llywio'r ffordd rydyn ni'n gwrando, yn ymateb, ac yn darparu gwerth. Mae'r egwyddorion hyn yn sicrhau bod ein hymgysylltu yn gynhwysol, yn cael effaith, yn ymatebol, ac yn atebol – gan gefnogi ein hymrwymiad i rwydwaith diogel, cynaliadwy sy'n rhoi'r defnyddiwr yn y canol.

| Ymrwymiad | Egwyddor | Ffocws Allweddol |
|---|---|---|
| 1. Darparu rhwydwaith sy'n amgylcheddol gynaliadwy | Perthnasedd ac effaith | Canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i'n rhanddeiliaid a'n cynaliadwyedd hirdymor. |
| 2. Cynnal rhwydwaith diogel a gwydn | Llywodraethu ac effaith | Mesur ac adrodd ar ganlyniadau ein penderfyniadau a'u heffeithiau ehangach. |
| 3. Diwallu anghenion cwsmeriaid a defnyddwyr y rhwydwaith | Cynhwysiant | Cynnwys amrywiaeth eang o leisiau, yn enwedig y rhai y mae ein gwasanaethau'n effeithio fwyaf arnynt. |
| 4. Darparu gwerth am arian | Ymatebolrwydd | Trosi adborth yn weithredu ystyrlon a gwelliannau i'r gwasanaeth. |

# Ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i fod yn fusnes cynaliadwy, gan roi pobl a chymunedau wrth galon yr hyn a wnawn. Drwy **adnabod** anghenion rhanddeiliaid a **theilwra** ein hymgysylltu ar sail hynny, rydyn ni'n **dadansoddi** yr hyn a ddysgwn er mwyn **darparu** gwasanaethau sydd o bwys, tra byddwn yn **gwerthuso** ein heffaith er mwyn ysgogi gwella parhaus.

Bydd pob astudiaeth yn yr adroddiad hwn yn dilyn patrwm sy'n adlewyrchu ein hymagwedd:

**Adnabod** › **Dadansoddi** › **Darparu** › **Gwerthuso**

Mae'r camau gweithredu rydyn ni'n eu hamlinellu yn cysylltu'n ôl â'n strategaeth ac yn cael eu dylanwadu'n barhaus gan adborth rhanddeiliaid ac asesiadau effaith.



# Trosolwg o ymgysylltu allweddol

**Yn 2025, aethom ati i gynnal cyfres o weithgareddau ymgysylltu wedi'u targedu a oedd wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol ac i ddarparu canlyniadau ystyrlon i randdeiliaid. Mae'r tabl isod yn crynhoi detholiad o'r gweithgareddau hyn gan ddefnyddio ein hymagwedd strwythuredig.**

**Mae ein hymagwedd (Adnabod, Dadansoddi, Darparu a Gwerthuso) yn sicrhau bod ein hymgysylltu yn bwrpasol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn esblygu'n barhaus yn unol â'n strategaeth.**

| Prosiect | Adnabod | Dadansoddi | Darparu | Gwerthuso |
|---|---|---|---|---|
| **YMGYSYLLTIAD GWASANAETH ARGYFWNG CARBON MONOCSID** | Roedd angen creu taflen ac adnoddau newydd i gwsmeriaid i'w darparu wrth gael ein galw allan mewn argyfwng. Ymgysylltwyd â 75 o gwsmeriaid drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un o ddemograffeg amrywiol. | • Roedd yr hyn a ddysgwyd yn amlygu'r angen am gyfathrebu mwy eglur a mwy brys. | Mewn ymateb, gwnaethom ddatblygu cyfres gydlynus o ddeunyddiau ac adnoddau a oedd yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion a dyheadau'r rhanddeiliaid, gan sicrhau bod ein negeseuon yn amserol ac yn cael effaith.<br>Gellir gweld ein gwefan newydd a'r deunyddiau cysylltiedig yma. | Cyn eu lansio, cafodd deunyddiau eu profi gyda pheirianwyr, cydweithwyr mewnol, a Mindset – yr ymgynghoriaeth ymgysylltu wreiddiol – er mwyn sicrhau eu bod yn gywir, yn eglur, ac yn gyflawn. |
| **PANEL CENEDLAETHAU'R DYFODOL** | Ymgysylltwyd â Phanel Cenedlaethau'r Dyfodol â 34 o bobl 18-25 oed er mwyn dod i ddeall eu dewisiadau o ran cyfathrebu. | • Mae pobl ifanc yn blaenoriaethu iechyd meddwl a sicrwydd ariannol.<br>• Lefel isel o ymwybyddiaeth ynglŷn â Wales & West Utilities yn gyffredinol.<br>• Y rhan fwyaf â diddordeb mewn cynaliadwyedd, ymatebion mewn argyfwng, a chefnogaeth i gwsmeriaid sy'n agored i niwed.<br>• Eisiau cynnwys fideo amrywiol y gallant uniaethu ag ef.<br>• Lefelau isel o ymwybyddiaeth ynglŷn â CO a'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth gan fod y cynnwys presennol yn teimlo'n amherthnasol iddyn nhw. | Defnyddiodd ein tîm cynaliadwyedd yr hyn a ddysgwyd i lansio'r ymgyrch newydd "Oeddech chi'n gwybod", oedd â'r bwriad o wneud negeseuon ynglŷn â chynaliadwyedd yn fwy difyr a pherthnasol i genedlaethau ifanc. | Byddwn ni'n defnyddio dadansoddiadau o'r ymgyrch i brofi effeithiolrwydd ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol. |
| **GWEITHDY RHANDDEILIAID BLYNYDDOL** | Ymgysylltwyd â 97 o randdeiliaid i ennyn adborth ynglŷn â'n perfformiad yn GD2 a'n hymrwymiadau a'n blaenoriaethau yn GD3. | • Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol i'n perfformiad a'n cynlluniau ond yn galw am fwy o gydweithio.<br>• Galw am ganolbwyntio ar arloesi, uwchsgilio, ymgysylltu â'r gymuned. | Bydd y pethau a ddysgwyd o'r adroddiad hwn yn cael eu defnyddio wrth lunio'r rhaglen ddarparu ar gyfer GD3 a BAU. | Byddwn ni'n ymgorffori'r adroddiad yn ein hofferyn AI ac yn ystyried y canfyddiadau ochr yn ochr â'n rhaglen ddarparu wrth i ni symud ymlaen i GD3. Bydd hynny wedyn yn cael ei brofi a'i fireinio gyda rhanddeiliaid drwy ymgysylltu pellach. |

Parhad >

# Trosolwg o ymgysylltu allweddol | Parhad...

| Prosiect | Adnabod | Dadansoddi | Darparu | Gwerthuso |
|---|---|---|---|---|
| **TRACIWR CARBON-ISEL** | Ymgysylltwyd â 2,000 o gwsmeriaid o ddemograffeg eang er mwyn dod i ddeall agweddau tuag at wresogi carbon-isel. | • Roedd galw am wybodaeth ganolog, y gellid ymddiried ynddi ynglŷn â sero net a gwresogi carbon-isel.<br>• Roedd rhywfaint o barodrwydd i fuddsoddi mewn gwresogi carbon-isel, ac roedd rhai'n teimlo eu bod wedi'u grymuso i gymryd camau tuag at hynny.<br>• Fodd bynnag, roedd pryder ynglŷn â'r angen am ragor o dryloywder ynglŷn â'r broses.<br>• I rai defnyddwyr, arbed arian oedd eu prif flaenoriaeth. | Bu'r tîm sero net yn ailwampio ein gwefan "Dyfodol ynni" i'w gwneud yn fwy rhyngweithiol, cynhwysol ac addysgiadol. | Defnyddiwyd y canfyddiadau o'r adroddiad hwn i ddylanwadu ar ffurfiau cyfathrebu yn y dyfodol ac maent wedi'u hystyried yn ein cynllun cyflawni sero net. |
| **YMGYSYLLTU SEIBER** | Roedd angen adnabod y meysydd cryfaf a'r gwannaf yn ein gwytnwch seiber ymhlith cydweithwyr – cafodd 32 o gydweithwyr gyfweliad. | • Mae'r diwylliant cyfeillgar yn un o fanteision allweddol gweithio yn Wales & West Utilities, ac mae hynny'n darparu cyfle ar gyfer cyfathrebu ynglŷn â seiberddiogelwch.<br>• Roedd lefelau ymwybyddiaeth ynglŷn â'r tîm seiber yn isel, felly roedd angen codi proffil.<br>• Cafwyd anogaeth i ddull wedi'i deilwra gan y gweithlu. | Defnyddiwyd y canlyniadau i ddatblygu ymchwil meintiol pellach gyda chydweithwyr drwy arolwg ar sail cwis. | Bydd canfyddiadau a'r hyn a ddysgwyd o'r ddau adroddiad yn dylanwadu ar hyfforddiant wedi'i dargedu, yn gwella cyfathrebu ynglŷn â pholisi, ac yn gwella eu gwytnwch seiber cyffredinol. |



## Sylw i ymgysylltu: Dadansoddi wedi'i bweru gan AI

Rydyn ni wedi cyflwyno offeryn AI i ddadansoddi ymgysylltiad gan Sirio Strategies i gyflymu a gwella dadansoddiadau o'r hyn a ddysgwn. Mae'r offeryn yn adolygu data ymgysylltu, adroddiadau allanol, ac adborth trydydd-parti yn gyflym, gan roi canfyddiadau cywir i ni heb dreulio amser yn ymchwilio. Mae hyn yn ein galluogi i gael dealltwriaeth ddyfnach yn gyflymach ac yn cefnogi gwell proses gwneud penderfyniadau fydd yn rhoi gwell gwerth am arian.

# 1. Darparu rhwydwaith sy'n amgylcheddol gynaliadwy

Ein dyhead ydy helpu cymunedau a'r amgylchedd i ffynnu drwy ddarparu ynni dibynadwy, fforddiadwy a chynaliadwy a fydd yn helpu i bweru adferiad gwyrdd a mynd â'r Deyrnas Unedig hyd at sero net.

## Ystadegau Perfformiad Allweddol

**410km** o brif bibellau nwy wedi'u newid yn 2024-25 am bibellau mwy gwydn sydd ag oes o 80+ o flynyddoedd

**Wedi gosod cyfanswm o 69** o bwyntiau gwefru cerbydau yn ein safleoedd hyd at fis Mawrth 2025

**Cafodd 99.8%** o'n gwastraff ei ailddefnyddio a'i ailgylchu yn 2024-25



## Oeddech chi'n gwybod?

Mae gennym 22 o gysylltiadau biomethan sy'n darparu digon o gapasiti i ddiwallu'r hyn sy'n cyfateb i'r galw gan dros 160,000 o gartrefi.

Darllenwch ein Hadroddiad Amgylcheddol Blynyddol yma

Astudiaeth Achos

# HyLine Cymru



## Adnabod

Mae de-orllewin Cymru yn gartref i ddiwydiant trwm sy'n cynhyrchu cyfran uchel o gyfanswm allyriadau carbon Cymru. Er mwyn torri'r allyriadau hyn a diogelu miloedd o swyddi, mae angen cyflenwad dibynadwy o ynni carbon-isel ar y rhanbarth. Cafodd prosiect HyLine Cymru ei greu er mwyn diwallu'r angen hwn drwy adeiladu piblinell hydrogen 130km o Ddoc Penfro i Bort Talbot.

## Dadansoddi

Bu partneriaid yng Nghlwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC) yn cydweithio i gynllunio datrysiad sy'n cefnogi diwydiant, cymunedau, a'r economi. Mae'r prosiect yn cyfuno arloesi â buddsoddiad ychwanegol y tu hwnt i'r cyllido rheoleiddiol er mwyn gwneud y biblinell yn ddichonadwy ac yn barod at y dyfodol.

## Darparu

Bydd HyLine Cymru yn cysylltu cynhyrchwyr hydrogen â defnyddwyr diwydiannol mawr, gan alluogi cyfnewid tanwydd a datgarboneiddio. Bydd y biblinell hefyd yn datgloi prosiectau ynni glân newydd, megis gwynt ar y môr, drwy ddarparu llwybr i'r farchnad ar gyfer hydrogen gwyrdd.


## Gwerthuso

Mae'r manteision yn sylweddol:

- Arbedion posib o hyd at 3.2 miliwn o dunelli o CO2e y flwyddyn.
- Mae'n gyfle i ddiogelu a chreu miloedd o swyddi â sgiliau yng Nghymru.
- Cyfrannu at ddatblygiad diwydiant gwyrdd a chanolfan ynni yng Nghymru.
- Gwerth biliynau mewn gwerth economaidd dros ei oes.
- Bydd yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu cynlluniau ynni.
- Bydd diwydiannau anodd-eu-datgarboneiddio fel cynhyrchu dur yn cael eu cefnogi.

Mae HyLine Cymru yn gam mawr tuag at ddyfodol gwyrddach – drwy leihau allyriadau, cefnogi cymunedau ac ysgogi twf economaidd.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am ein Hadroddiad HyLine Cymru



# 2. Cynnal rhwydwaith diogel a gwydn




Mae cadw cwsmeriaid yn ddiogel ac yn gynnes yn dechrau gyda rhwydwaith nwy dibynadwy. Mae ein rôl fel y gwasanaeth argyfwng nwy yn chwarae rôl hanfodol yn diogelu cartrefi a busnesau drwy ymateb yn gyflym i ollyngiadau a sefyllfaoedd brys. Ar yr un pryd, mae buddsoddi parhaus i uwchraddio'r rhwydwaith yn sicrhau bod ynni'n parhau i lifo'n ddiogel heddiw a'n bod ni'n barod at y dyfodol. Mae'r gwelliannau hyn yn diogelu cymunedau ac yn paratoi'r rhwydwaith ar gyfer cludo nwyon gwyrdd fel hydrogen a biomethan – gan gefnogi system ynni lanach a mwy cynaliadwy i gwsmeriaid.

## Ystadegau Perfformiad Allweddol

**Darparwyd mwy na 10,000** o larymau carbon monocsid i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed

**Mynychwyd 90,000** o argyfyngau nwy yn flynyddol

**Cyrhaeddwyd 2.7m o unigolion** (dros 1.1m o gartrefi) gyda negeseuon ynglŷn ag ymwybyddiaeth carbon monocsid

## Oeddech chi'n gwybod?

Gwnaethon ni addysgu dros 18,000 o bobl ynglŷn â diogelwch nwy drwy ein rhaglen addysg fewnol yn 2025.

Astudiaeth Achos

# Ymroddiad cyson i'r safonau iechyd a diogelwch uchaf

## Adnabod

Mae cynnal rhwydwaith nwy diogel a gwydn yn un o'n hymrwymiadau craidd – ac mae'n brif flaenoriaeth i'n rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid. Cadarnhawyd yr ymrwymiad hwn drwy i ni ennill ein deuddegfed Gwobr Aur yn olynol gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA), sy'n gydnabyddiaeth a berchir yn fyd-eang o ragoriaeth mewn iechyd a diogelwch.

## Dadansoddi

Mae diogelwch yn fwy na gofyniad rheoleiddiol; mae'n ddisgwyliad sylfaenol gan y cymunedau a wasanaethir gennym. Mae Gwobrau RoSPA yn cydnabod sefydliadau sy'n gwneud mwy na chydymffurfio ac yn ymgorffori diwylliant o ddiogelwch. Mae ein hanes dros ddeuddeg mlynedd yn dangos ein bod yn diwallu'r disgwyliad hwn yn gyson, gan sicrhau bod ein rhwydwaith yn parhau'n wydn, yn ddibynadwy, ac yn barod am y dyfodol.



## Darparu

Rydym yn gweithredu'r gwasanaeth argyfwng a phibellau nwy ar gyfer 7.5 miliwn o bobl ledled Cymru a de-orllewin Lloegr, gan wneud yn siŵr bod cartrefi a busnesau yn cadw'n ddiogel a chynnes. Mae ein gwaith yn cynnwys:

- ymateb i argyfyngau nwy yn gyflym ac yn effeithiol
- cysylltu cartrefi a busnesau newydd i'r rhwydwaith
- uwchraddio'r seilwaith i'w gadw'n ddiogel heddiw ac yn barod ar gyfer nwyon gwyrdd fel hydrogen a biomethan yn y dyfodol.

## Gwerthuso

Gwobrau Iechyd a Diogelwch RoSPA ydy'r rhaglen wobrau iechyd a diogelwch galwedigaethol fwyaf yn y Deyrnas Unedig; mae'n denu bron i 2,000 o geisiadau bob blwyddyn o bron i 50 o wledydd, gan rychwantu dros saith miliwn o weithwyr cyflogedig. Mae sicrhau 12 Gwobr Aur yn olynol yn ein gosod ymhlith y sefydliadau yr ymddiriedir fwyaf ynddynt yn y sector. Mae ein cyflawniad yn atgyfnerthu ein haddunedu i gadw diogelwch wrth graidd popeth a wnawn – i'n cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid, a'n cymunedau.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth



## Pa rai ydy'r meysydd pwysicaf i ganolbwyntio arnynt i'n rhanddeiliaid?

| | |
|---|---|
| Gwneud popeth y gallwn i ddarparu ynni cynaliadwy | 3.34 |
| Mynnu diogelwch bob amser | 2.82 |
| Darparu gwerth am arian | 2.78 |
| Cynllunio ein dyfodol | 2.12 |
| Arwain gwasanaeth rhagorol | 2.04 |

Gweithdy Blynyddol i Randdeiliaid mis Hydref 2025

# 3. Diwallu anghenion cwsmeriaid a defnyddwyr y rhwydwaith

Rydym wedi ymrwymo i ddod i ddeall beth sydd bwysicaf i'n cwsmeriaid er mwyn i ni allu diwallu a mynd y tu hwnt i'w disgwyliadau. Un o'r blaenoriaethau allweddol ydy diwallu anghenion y rhai sydd mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed, gan sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn cadw'n ddiogel a chynnes.

## Ystadegau Perfformiad Allweddol

**Sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid** o 9.21 yn 2025

**229,105** o bobl wedi'u cyrraedd yn uniongyrchol drwy ein prosiectau Lwfans Bregusrwydd a Charbon Monocsid (VCMA)

**Wedi dal gafael ar** ein Safon Brydeinig ar gyfer Darparu Gwasanaeth Cynhwysol




## Oeddech chi'n gwybod?

Ym mlwyddyn pedwar, rhoesom hwb i'n buddsoddiad VCMA hyd at £9.58m, drwy addasu'r Cynllun Ehangu'r Rhwydwaith i'r Tlawd o Ran Tanwydd.

Astudiaeth Achos

# Buddsoddi'n ôl mewn cymunedau

## Adnabod

Roedd angen i ni uwchraddio'r brif biblinell nwy yn Shaldon, De Dyfnaint, er mwyn sicrhau cyflenwad diogel, dibynadwy i gartrefi a busnesau yn yr ardal. Roedd y buddsoddiad seilwaith £500,000 hwn yn hanfodol er mwyn cynnal y rhwydwaith yn gyfan a pharatoi ar gyfer nwyon carbon-isel y dyfodol fel biomethan a hydrogen.

## Dadansoddi

Er bod y gwaith hwn yn allweddol o safbwynt diogelwch a gwytnwch, roeddem yn sylweddoli y byddai'n tarfu ar y gymuned leol. Drwy ein hymgysylltu â rhanddeiliaid, pwysleisiwyd pwysigrwydd gadael gwaddol cadarnhaol a chefnogi blaenoriaethau lleol, fel gwella mannau cymunedol a bioamrywiaeth.



## Darparu

Er mwyn rhoi'n ôl i'r gymuned, aethom i bartneriaeth â rhanddeiliaid lleol i gefnogi gwelliannau i'r parc chwarae oedd newydd gael ei adnewyddu yn y maes chwarae lleol. Cafodd ein cyfraniad ei ddefnyddio i greu "wigwam helyg byw" a chyflwyno coed a phlanhigion sy'n denu peillwyr – gan roi hwb i fioamrywiaeth a gwneud y parc yn lle mwy deniadol ar gyfer pob oed.

## Gwerthuso

Darparodd y prosiect nifer o fanteision:

- Diogelwch a dibynadwyedd: Mae'r prif bibellau nwy yn lleihau risgiau ac yn gwneud yn siŵr y bydd y cyflenwad yn barhaus.
- Diogelu at y dyfodol: Mae paratoi'r rhwydwaith ar gyfer nwyon gwyrddach yn cefnogi dyheadau sero net y Deyrnas Unedig.
- Effaith ar y gymuned: Gwnaeth ein cyfraniad wella man lleol gwerthfawr a gwella bioamrywiaeth. Dangoson ni ein hymrwymiad i ailfuddsoddi mewn ardaloedd y mae ein gwaith yn effeithio arnynt.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth



# 4. Darparu gwerth am arian

Mae darparu gwasanaethau cost-effeithiol i'n cwsmeriaid wrth i ni gadw'r nwy yn llifo mewn modd mwy effeithlon a chynaliadwy cyn bwysiced ag erioed. Mae ein gwaith arloesi yn hollbwysig ar gyfer datgarboneiddio'r rhwydwaith ac, ar yr un pryd, cadw costau cyn ised â phosib i ddefnyddwyr.

## Ystadegau Perfformiad Allweddol

Yn 2024-25, dechreuodd **36 o brosiectau Lwfans Arloesi Rhwydweithiau**

**Cadw biliau'n isel** oedd y flaenoriaeth uchaf i gwsmeriaid domestig dros nifer o flynyddoedd, gan adlewyrchu'r galw cryf ymhlith cwsmeriaid am gostau ynni fforddiadwy

Creodd ein prosiectau plannu coed **werth £3.2m** mewn gwaredu carbon a manteision cymdeithasol eraill



## Oeddech chi'n gwybod?

Gwnaethon ni fuddsoddi £6.3m mewn prosiectau arloesi trawsnewid system ynni yn 2024-25.

Astudiaeth Achos

# NextGen Electrolysis – Dŵr Gwastraff i Hydrogen Gwyrdd




## Adnabod

Gall lleihau cost hydrogen gwyrdd helpu i gyflawni targedau sero net y Deyrnas Unedig. Ar gyfer y dulliau presennol, mae angen ynni glân fel ynni'r haul neu'r gwynt, dŵr pur iawn, a chyfarpar arbennig i lanhau'r dŵr hwnnw. Maent hefyd yn defnyddio pilenni a gaiff eu gwneud yn aml o fetelau prin i wahanu'r dŵr yn hydrogen ac ocsigen.

Yn ein prosiect NextGen Electrolysis rydym wedi dangos eisoes y gall technoleg membranelau newydd gynhyrchu hydrogen gwyrdd gan ddefnyddio llai o ddŵr. Nawr, rydyn ni'n symud i'r cam nesaf: profi sut y gall hyn weithio ar raddfa fwy a sut y gallai fod yn rhan o ddatblygiad rhwydwaith nwy y Deyrnas Unedig yn y dyfodol, er mwyn lleihau'r allyriadau sy'n gysylltiedig â defnyddio nwy.

## Dadansoddi

Rydyn ni yn y cam beta nawr, yn datblygu dau dreial cyffrous:

**Dŵr Cymru**
Yn eu gwaith trin dŵr gwastraff yn Ne Cymru, rydyn ni'n defnyddio elifion a dŵr môr, ynghyd â phŵer solar y safle, i wneud hydrogen ar gyfer gwresogi a dŵr poeth yn adeilad y swyddfeydd. Bydd hyn yn dangos i ni beth sydd ei angen er mwyn i safle diwydiannol redeg ar hydrogen yn gyfan gwbl ar gyfer yr anghenion beunyddiol hyn.

**Yeo Valley**
Yma, rydyn ni'n defnyddio pŵer solar a ffynonellau dŵr gwahanol – fel dŵr prosesau, dŵr glaw, a dŵr o ddyfrdwll – i gynhyrchu hydrogen. Byddwn ni'n cymysgu 20% hydrogen â nwy naturiol yn y boeleri a ddefnyddir i wneud iogwrt. Bydd y treial hwn yn ein helpu ni i ddeall sut gall hydrogen weithio ochr yn ochr â systemau sy'n bodoli a beth sydd ei angen i gadw'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon.

# Darparu

Beth bydd y treialon hyn yn ei ddweud wrthym?

- Pa mor dda mae cynhyrchu hydrogen ar raddfa fach yn gweithio mewn lleoliadau diwydiannol go iawn.
- Pa heriau mae angen i ni eu goresgyn er mwyn gwneud hyn yn ymarferol.
- Sut gallai cymysgu hydrogen â nwy naturiol weithio'n ddiogel ac yn effeithlon.
- Manteision defnyddio llai o ddŵr pur a lleoli gwaith cynhyrchu yn agos at yr angen.

# Gwerthuso

- **Arbed dŵr:** Drwy gael gwared ar yr angen i buro, gallen ni arbed 1.5 miliwn litr am bob GWh o hydrogen a gynhyrchir.
- **Costau is:** Gallai defnyddio gwres ac ocsigen gwastraff o'r broses dorri costau a gwella effeithlonrwydd.
- **Torri carbon:** Mae'n helpu busnesau i leihau allyriadau ac yn cefnogi taith y Deyrnas Unedig tuag at sero net.
- **Barod at y dyfodol:** Gellid cymysgu hydrogen ychwanegol i mewn i rwydweithiau nwy lleol, gan wneud y trawsnewid yn llyfnach i bawb.

Drwy symud y dechnoleg hon yn ei blaen, ein nod yw galluogi cynhyrchu hydrogen gwyrdd ar gost is, gan gyflymu'r trawsnewid i ddyfodol ag ynni cynaliadwy.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth



Os oes gennych syniad sy'n cyd-fynd â'n themâu allweddol, cysylltwch â ni

# Edrych ymlaen at ein cyfnod buddsoddi busnes nesaf (GD3)



## Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2026 – 2031

Wrth i GD2 ddirwyn i ben, rydym yn falch o'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud yn darparu rhwydwaith nwy diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Rydyn ni wedi cryfhau ein perthynas â rhanddeiliaid, wedi buddsoddi mewn arloesi, ac wedi cymryd camau ystyrlon tuag at ddatgarboneiddio – a'r cyfan tra'n cynnal lefelau uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid a pherfformiad gweithredol.

Ond rydyn ni'n gwybod bod angen gwneud mwy.


Mae GD3 yn rhoi cyfle tyngedfennol i adeiladu ar y sylfeini hyn. Gyda safbwyntiau a blaenoriaethau ein cymunedau yn ein harwain, rydym wedi ymrwymo i esblygu ein gwasanaethau er mwyn goresgyn heriau'r dyfodol. Boed hynny drwy gefnogi'r trawsnewid i sero net, gwella fforddiadwyedd, neu wella gwytnwch yn wyneb y newid yn yr hinsawdd, mae ein strategaeth ar gyfer GD3 wedi'i llywio gan yr hyn sydd bwysicaf i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Rydyn ni'n mynd ymlaen i'r cam nesaf hwn gydag uchelgais newydd a ffocws clir: darparu gwerth hirdymor drwy rwydwaith sydd yn ddiogel a chynaliadwy, ac sydd hefyd yn gynhwysol, arloesol ac ymatebol.

Mae'r ffeithlun ar y dudalen nesaf yn nodi'r meysydd blaenoriaeth GD3 a bennwyd gan Ofgem i'r rhwydweithiau dosbarthu nwy.

# Ein meysydd blaenoriaeth GD3

Dyma'r meysydd blaenoriaeth lle byddwn ni'n canolbwyntio ein hymdrechion er mwyn sicrhau y byddwn yn darparu gwerth hirdymor a gwytnwch i'r cwsmeriaid rydyn ni'n eu gwasanaethu heddiw ac yn y dyfodol.



# Ein hadroddiadau eraill


I gael dysgu rhagor, cliciwch ar unrhyw un o'r adroddiadau isod:




Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol 2024-2025




Adroddiad Arloesi 2024-25




Datganiad Datblygu Hirdymor 2025




Adroddiad Bregusrwydd a Charbon Monocsid 2024-25




Cynllun Busnes GD3 2026-31

# Sylwadau cloi

## Edrych nôl, symud ymlaen

“Wrth i GD2 ddirwyn i ben, rydyn ni eisiau diolch i chi – ein rhanddeiliaid – am eich ymddiriedaeth a’ch partneriaeth barhaus ar hyd y daith hon. Mae eich cefnogaeth wedi bod yn allweddol i’n galluogi ni i gyflawni canlyniadau cryf a chreu effaith ystyrlon. Y tu ôl i’r cyflawniadau hyn, saif cydweithwyr ymroddedig y mae eu hymrwymiad a’u cydweithrediad wedi sicrhau bod GD2 wedi cyflawni ei amcanion uchelgeisiol.

“Wrth edrych ymlaen, mae GD3 yn bennod newydd gyffrous. Bydd yn datblygu ar sail llwyddiannau GD2 ac yn cyflwyno cyfleoedd newydd i arloesi, cryfhau partneriaethau, a darparu mwy fyth o werth. Rydym yn awyddus i weithio gyda chi wrth i ni gychwyn ar y cam nesaf hwn ac i ffurfio dyfodol sy’n adlewyrchu ein cyd-weledigaeth.”

*Gwyn Thomas*



I gadw cysylltiad â'r newyddion diweddaraf, ymunwch â'n cronfa ddata rhanddeiliaid yma neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

wwutilities.co.uk

@WWUtilities

wwutilities

@WWUtilities

WALES&WEST UTILITIES